# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 12.07.17 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Ian Williams, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Micah, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
   Rhoddwyd croeso cynnes hefyd i Mr Malcolm Hills a Mr David Griffiths a oedd yn bresennol ac wedi dangos diddordeb i gael eu cyfethol fel aelodau newydd - i lenwi dwy o'r seddi gweigion ar y Cyngor Cymuned, yn dilyn yr etholiad ym Mis Mai 2017.

2. **Ymddiheuriadau:** Dim.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14.06.17 fel rhai cywir.
   **Cynnig** – Keith Carroll **Eilio** – Kevin Goodchild **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (14.06.17)**:

- **Cyfethol aelod newydd ac ethol cynrychiolwyr newydd**
  - **a)** Un sedd wâg angen ei llenwi.
    Neb wedi dangos diddordeb i gynrychioli Rhoslefain ar y Cyngor Cymuned eto.
  - **b)** Keith Carroll wedi cynnig cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Bwyllgor Y Ganolfan.
  - **c)** Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn ➞ trafod ymhellach pan fydd y seddi gwag wedi eu llenwi.
- **Materion Cymunedol – Cyngor Gwynedd**
  - **a)** **Gwair o amgylch y toiledau cyhoeddus** ➞ ateb wedi ei dderbyn yn cadarnhau fod y gwair wedi ei dorri ar y 26.06.17 ac mi fydd yn derbyn toriad pellach yn ganol Mis Medi.
  - **b)** **Difrod i'r wal ger mynedfa Prysgau Uchaf, Llwyngwril** ➞ ateb wedi ei dderbyn yn cadarnhau fod Arolygwr Priffyrdd wedi ymweld â'r safle er sicrhau nad oes cerrig ar y ffordd bellach a'u bod wedi trefnu i Beiriannydd Strwythurol ymweld i asesu'r wal sydd wedi ei difrodi.
  - **c)** **Gordyfiant yn Llwyngwril** – cadarnhad wedi ei dderbyn fod y gwaith yma wedi ei gynnwys ar raglen waith ymatebol gweithlu Cyngor Gwynedd a bydd yn derbyn sylw pan fydd hogiau ar gael.
  - **d)** **Dwr ar ochr y ffordd yn Rhoslefain -** cadarnhad wedi ei dderbyn fod y gwaith wedi ei wneud i ochra'r ffyrdd fel bod unrhyw ddŵr sy'n rhedeg lawr y ffyrdd yn cadw i'r ochr a fydd y cwteri yn cael eu glanhau o fewn rhaglen waith Cyngor Gwynedd dros yr Haf.
  - **e)** **Japanese Knotweed –** gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Liz Haynes fod grantiau ar gael i drin y broblem yma
    **Penderfyniad** ➞ ceisio cael fwy o wybodaeth am hyn gan y Parc Cenedlaethol Eryri, ac efallai cydlynu â gwahanol dirfeddianwyr i drin y broblem.
- **Network Rail – Croesfan y Crynwr, Llwyngwril**
  - **a)** Ateb wedi ei dderbyn ganddynt - yn cadarnhau eu bod wedi derbyn ein sylwadau ynglŷn â gordyfiant ar ochr y lein, a chyflwr gwael y groesfan ger Llwybr y Crynwyr.

5. **Gohebiaeth:**
   - **a)** **ROSPA -** Adroddiad wedi ei dderbyn ar archwiliad blynyddol y Cae Chwarae yn Llwyngwril – 28.06.17.
     Huw, Keith a Geraint wedi cynnig gwneud y gwaith sydd angen ei wneud ar yr offer, i'w gwneud yn ddiogel.
     Oes modd prynu seti i'r swings gyda'r arian sydd wedi ei glustnodi i gynnal a chadw'r cae chwarae?
     **Penderfyniad** ➞ cael pris gan G L Jones am sêt swing / cadwyn i sêt y swing, a phris i'w prynu / a'u gosod.

b) **Cyngor Gwynedd –** gwybodaeth ar Ymgynghoriad Cyhoeddus 12 wythnos Rhwydwaith Integredig - Teithio Llesol.

c) **Grŵp Mynediad Traphont Abermaw -** e-bost wedi ei dderbyn gan y Grŵp yn gofyn i'r Cyngor Cymuned ymateb i Ymgynghoriad Teithio Llesol Cyngor Gwynedd drwy gefnogi cynhwysiad Mynediad Traphont Abermaw yn y mapiau teithio gwreiddiol cerdded a beicio
**Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i gefnogi'r cynnig yma.

6. **Materion Cynllunio:**
   - **Cais: NP5/69/377C – Cyn Ysgol Gynradd, Llwyngwril:**
     cais i drosi cyn ysgol yn dy annedd yn cynnwys codi ports a garej triphlyg ar wahân
     ➞ **dim sylwadau na gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.**

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad Ariannol wedi ei wneud.
   Derbyniwyd Adroddiad Mis Mehefin yn gywir.
   **Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Kevin Goodchild **Arwyddwyd –** Geraint Edwards**.**
   1. **Toiledau Cyhoeddus –** derbynneb gan Gyngor Gwynedd am gyfraniad y Cyngor Cymuned - **£2,000.00.**
   2. **Scottish Power –** siec wedi ei derbyn - (wayleave) **- £17.08**
   3. **Playsafe Ltd** – Anfoneb wedi ei dderbyn am gyflawni archwiliad blynyddol ROSPA o'r cae chwarae - **£92.40**
      ➞ siec i'w anfon i Playsafe Ltd.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Dim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

a) **Rhoslefain** - "pam fod y fainc o flaen Glyn Bedw, Rhoslefain wedi cael ei symud"?
➞ y fainc wedi cael ei symud gan ei bod mewn cyflwr gwael ac nad oedd yn ddiogel i'w defnyddio.
Kevin Goodchild wedi cynnig adrodd hyn yn ôl i'r unigolyn a dynnodd sylw at y mater.
Ian Williams yn cynnig fod y fainc arall sydd yn Rhoslefain yn cael ei symud o'r gwair a'i gosod ar y slab concrit o flaen Glyn Bedw , ond dyddiad heb gael ei drafod ➞ felly, trafod ymhellach i drefnu dyddiad.

b) **Hysbysfwrdd, Llwyngwril** - Huw Davies yn adrodd fod yr hysbysfwrdd newydd yn ei le ac yn edrych yn dda, ond fod y "pinboard" braidd yn llac ar y gwaelod, felly bydd rhaid cadw llygad ar y sefyllfa.
Cynigiodd hefyd y dylid rhoi arwydd mewn plastic gryf ar yr hysbysfwrdd, gydag enw'r cyngor arno - "Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council" - mewn llythrennau aur ar gefndir lliw du
**Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn, felly archebu arwydd yn Nolgellau.

c) **Cae Chwarae, Llwyngwril –** trîn y Japaneese Knotweed â'r tyrchod yn y cae chwarae
**Penderfyniad** ➞ Geraint Micah i roi gwybod pryd fydd o yn gallu gwneud y gwaith yma yn y cae chwarae.

**Materion Cymunedol**

d) **Giatiau Ffîn ger Ffarm Tudfarch/Cefn Meusydd, Llwyngwril -** aelodau o'r gymuned wedi adrodd fod dwy giât ar y ffordd mewn cyflwr gwael iawn ac yn beryglus wrth gael eu hagor a'u cau

e) **Ffordd ger Mîn y Don, Rhoslefain –** cwynion wedi eu derbyn fod ochr y ffordd yn ymsuddo ac angen sylw
**Penderfyniad** ➞ llythyr i'w yrru i Gyngor Gwynedd i'w gwneud yn ymwybodol o'r materion yma.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher - 13.09.17 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………………… Dyddiad ………………………………**